

Saffari Bywyd Gwyllt



Ffocws y Pwnc

Pethau byw a'u cynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid a gweithio'n wyddonol.

Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn annog plant i weld safleoedd claddu fel llecynnau pwysig i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Maent yn annog y plant i archwilio gwahanol gynefinoedd ac edrych ar y safleoedd claddu o onglau gwahanol. Drwy ymchwilio i fân-drychfilod, cynefinoedd a choed, a hefyd rhywogaethau Prydeinig pwysig fel Draenogod, Cacwn, Cennau a Choed Yw, bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu sgiliau arsylwi a chofnodi a hefyd technegau gwaith maes syml.

Dyma'r gweithgareddau: Coed Cyfareddol, Gwarcheidwaid Gwyrdd, Mania Mân-drychfilod, Canfod Cynefin, Canfod Cennau, Creaduriaid Cartrefol - Draenogod, Cacwn, Nadroedd Defaid, Gwenoliaid Duon.

CSBC, CA1 a CA2

Sgiliau Allweddol

Ymchwilio
Arsylwi
Cwestiynu
Dosbarthu
Adnabod
Cofnodi
Mesur

Geiriau Allweddol

Cynefin
Amodau
Mân-drychfil
Cen

Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth ac ABaCh.

CSBC

Deall y Byd
Y Byd



Dyfarniad John Muir

Darganfod
Archwilio
Gwarchod
Rhannu



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynnau canlynol:

Enfys – Edrych a Dysgu

Beavers – Gweithgaredd Archwilio

Brownies – Yr Amgylchedd, Ffrind i Anifeiliaid, Ymchwilydd Gwyddoniaeth, Y Tymhorau, Bywyd Gwyllt

Cybiau – Gweithgaredd Naturiaethwr

Guides – Anifail Prysor, Gwyddoniaeth

Sgowntiaid - Gweithgaredd Naturiaethwr, Gweithgaredd Cadwraeth Fyd-eang

Gwennol Ddu

Adnoddau

Templed Gwennol Ddu

Ffrâm Ysgrifennu Gwennol Ddu

Ffeil Ffeithiau Rhyfeddol am Wenoliaid Duon

Gweithgareddau

1. Annog adar eraill – i dir eich ysgol neu eich gardd. Gwnewch declyn bwydo adar gan ddefnyddio pot iogyrt. Gwnewch dwll bychan yng ngwaelod pot iogyrt gwag. Rhewch ddarn o llyn drwyddo a gwnewch gwlwm ynddo ar yr ochr arall. Llenwch y pot gyda hadau adar; resins; pysgnau; caws wedi'i gratio; siwed neu lard yn gymysg i gyd a'i adael i setio. Wedyn ewch ati i hongian eich teclyn bwyd adar ar gangen.

2. Torri templed Gwennol Ddu allan – ei baentio ac ychwanegu rhywfaint o blu yn barod i'w arddangos neu ei hongian.

3. Adeiladu nyth Gwennol Ddu – bydd arnoch angen cynfas neu flanced fawr frown i'w hongian rhwng dwy gadair. Llenwch eich nyth gyda brigau a phlu.

4. Gwneud sbienddrych – o diwbiau cardfwrdd er mwyn gallu gweld y Wenoliaid Duon yn hawdd. Gludwch ddau diwb gyda'i gilydd. Paentiwch nhw ac atodi darn o llyn wrthyn nhw i hongian eich sbienddrych newydd am eich gwddw.

5. Edrych a gwrando – am Wenoliaid Duon a chofnodi eich darganfyddiadau ar ein bas data cenedlaethol drwy'r wefan Swift Conservation. Ewch i www.rspb.org.uk/applications/swiftsurvey.

6. Symud fel Gwennol Ddu.

7. Dychmygwch fod yn Wenol Ddu – yn hedfan am flynyddoedd heb lano.



© Swift Conservation





Gofalu am
Eraw Duar



Ffeil Ffeithiau Rhyfeddol am y Wennol Ddu

Oeddech chi'n gwybod?

- Mae Gwenoliaid Duon yn bwydo ar bryfed bach sy'n hedfan. Maen nhw'n treulio eu holl amser bron yn hedfan, gan fwyta a chysgu yn hedfan.
- Maen nhw'n gallu hedfan i uchder o 3000m. Mae Gwenoliaid Duon yn gallu hedfan ar gyflymder o tua 70 milltir yr awr.
- Pan mae Gwenoliaid Duon ifanc yn gadael y nyth, ni fyddant yn glanio o gwbl am 3 neu 4 blynedd. Dim ond i nythu fyddan nhw'n glanio wedyn.
- Nid yw Gwenoliaid Duon yn gallu glanio ar y tir. Mae siâp eu corff wedi'i greu i hedfan.
- Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i nythod Gwenoliaid Duon. Maen nhw'n nythu mewn twll mewn clogwyn, wal neu do. Mae eglwysi a thyrrau'n safleoedd nythu da oherwydd eu bod nhw mor uchel.
- Mae Gwenoliaid Duon yn bwyta tail eu rhai bach. Dyna pam na welwch chi lawer o lanast, os o gwbl, o dan nyth y Wennol Ddu.
- Dim ond am 3 mis y flwyddyn mae Gwenoliaid Duon yn byw yn y DU. Maen nhw'n mudo i Affrica weddill yr amser.

